

WMFAG (M1) – Eitem 2

Grŵp Cyngtori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 1 Hydref 2018 yn swyddfa Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, gan ddechrau am 10:10am

Yn bresennol:

Yr Aelodau	Yn cynrychioli
Nick O'Sullivan (NOS)	Cadeirydd
Jim Evans	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA)
John O'Connor	Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
Brett Garner	Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Trevor Jones	Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai (MSFOMA)
Rowland Sharp	Cyfoeth Naturiol Cymru
Holly Whiteley	Pwyllgor Cyngtori ar Bysgod Môr Cymru
Sion Williams	Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
Julian Bray	Llywodraeth Cymru
Bethan Jones	“ “
Mark Stafford	“ “
Colin Charman	“ “
Michael Jones	“ “
Tim Croucher (11-2)	“ “
Margaret Rees	“ “
Drwy delegyfathrebu:	
Alison Kitchener	Llywodraeth Cymru
Emily Williams	RSPB/WEL
Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth:	
Len Walters	Cymdeithas Pysgotwyr Cregyn Gorllewin Cymru
Kevin Denman	Cymunedau Pysgota'r De-orllewin

1.	<p>Croeso ac ymddiheuriadau - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Alison Kitchener, Pennaeth Pysgodfeydd, a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf drwy gysylltiad telegyfathrebu. Nodwyd yr ymddiheuriadau.</p> <p>Yn dilyn y cyflwyniadau, darparodd AK amlinelliad cryno o'i gwaith o fewn Llywodraeth Cymru ac roedd yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â heriau pellach yn yr Is-adran Pysgodfeydd.</p> <p>Estynnodd JB ei ddiolch i'r aelodau a'r cydweithwyr am fod yn bresennol ac am eu cefnogaeth barhaus. Amlinellodd fod staff yn dal i weithio o dan bwysau aruthrol ers y cyfarfod diwethaf, gyda gwaith Brexit a Busnes y Llywodraeth yn rhoi pwysau mawr ychwanegol ar Is-adran y Môr a Physgodfeydd a'r gwasanaethau cymorth mewnol y dibynnwn arnynt.</p> <p>Nodwyd bod Brexit yn eitem rhy fawr i'w rhoi ar yr agenda ond gan fod trafodaethau parhau, nid oedd modd trafod llawer o faterion ar hyn o bryd. Rhagwelir y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael; y tîm Brexit fyddai'n trefnu hyn.</p> <p>Cam 1: Y Tîm Brexit i drefnu cyfarfod arbennig ar gyfer WMFAG ym mis Tachwedd i roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau.</p> <p>Rhoddydwyd wybod i'r aelodau am sawl newid strwythurol yn Is-Adran y Môr a Physgodfeydd a oedd yn cynnwys ymadawiad Stuart Evans. Mae Colin Charman wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru o Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn ymgymryd â rhai o'r ffrydiau gwaith yr oedd Stuart yn gyfrifol amdanynt.</p>
2.	<p>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018 - Fe'u cymeradwywyd yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd. Nid oedd unrhyw materion pellach yn codi.</p>
2(a)	<p>Camau Gweithredu: Esboniodd y Cadeirydd y camau i'r aelodau ac amlinellodd statws pob un.</p> <p><i>Cam 3 - Tyllau dianc</i> - Ar ôl i WFA gysylltu â'i haelodau, mae ganddi syniad bellach o'r sawl sydd â diddordeb mewn cynnwys tyllau dianc yn eu cewyll. O ganlyniad i hynny, cytunodd JE i fwrw ymlaen â chais EMFF i gael cyllid i helpu'r diwydiant i gyflwyno paneli dianc ar gewyll pysgod cregyn. Bydd y niferoedd ar gyfer y broses ymgeisio yn cynnwys pysgotwyr hamdden â chewyll.</p> <p>Wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru ac WFA yn gweithio gyda'i gilydd i greu taflen wybodaeth a fideo YouTube i helpu i roi gwybod i'r diwydiant am fanteision defnyddio tyllau dianc.</p> <p><i>Cam 4 - Grŵp Gorchwyl a Gorffen Brexit</i> - Esboniodd JE fod Grŵp Technegol wedi'i sefydlu.</p> <p><i>Cam 5</i> - Byddai Tim Croucher yn mynd i'r cyfarfod i ddarparu diweddariad ar Dystysgrifau Allforio, adroddiadau cychod dan 10 metr a systemau monitro cychod ar y glannau. Nid oedd James Watkins yn gallu bod yn bresennol ac felly bydd Eitem 6 yn cael ei throsglwyddo i'r cyfarfod nesaf.</p>

WMFAG (M1) – Eitem 2

	<p><i>Cam 6 - Pysgodfa cregyn moch</i> - At ddibenion gwyddoniaeth, gofynnir i bysgotwyr gymryd rhan mewn fflyd cyfeirio, yn enwedig yn y Canolbarth – does neb yn cymryd rhan hyd yma. Cadarnhaodd JE fod nifer bach o unigolion wedi dangos diddordeb mewn cymryd rhan.</p> <p><i>Cam 7 - Posibilrwydd o amnewid injans cychod o dan gynllun EMFF.</i> Cadarnhaodd JE mai ychydig iawn o bobl sydd wedi mynegi diddordeb drwy'r arolwg gan WFA.</p> <p>Cam 2: BJ i baratoi e-bost i'r diwydiant i esbonio na fyddai'r eitem hon yn parhau oherwydd y diffyg diddordeb ynddi..</p> <p><i>Cam 10:</i> I'w drafod dan Eitem 7 ar yr Agenda.</p> <p><i>Cam 11:</i> Dogfennau diwygiedig i'w darparu dan Eitem 9(i).</p> <p><i>Cam 12:</i> Awgrymwyd cysylltu â physgotwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chymdeithasau – Cynigiwyd defnyddio Twitter, Facebook, safleoedd eraill yn y cyfryngau cymdeithasol, anfon taflenni allan sy'n cynnwys gwybodaeth am amrywiadau i drwyddedau.</p> <p>Hysbyswyd yr aelodau fod modd gweld papurau'r cyfarfodydd ar dudalennau gwe Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Yn ystod y trafodaethau, gofynnwyd i'r aelodau ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys pysgotwyr nad oeddent yn gysylltiedig â chymdeithasau.</p> <p>Cam 3 - Aelodau i ystyried pa dudalennau a ddefnyddir gan y diwydiant pysgota yn y cyfryngau cymdeithasol a rhoi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth amdanynt. Bydd hyn yn galluogi Is-adran y Môr a Physgodfeydd i ystyried ffyrdd o gysylltu â'r rheini nad ydynt yn gysylltiedig â chymdeithasau a defnyddio'r safleoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio gan y diwydiant.</p> <p><i>Cam 14 - Tyllau Dianc</i> - Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i Sion Williams am ddarparu papur ar y pwyntiau cadarnhaol a negyddol o ddefnyddio tyllau dianc mewn cewyll. Awgrymodd JB ddefnyddio'r papur i hysbysu'r diwydiant ehangach gan gynnwys pysgotwyr hamdden.</p> <p>Yn ystod y trafodaethau, roedd yr aelodau o blaid defnyddio tyllau dianc mewn cewyll. Er bod adnoddau Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn gyfyngedig i gyflwyno cynllun a fyddai'n gwneud cynllun o'r fath yn orfodol, awgrymwyd y gellid cyflwyno hyn fel cynllun gwirfoddol yn y tymor byr. Roedd yr aelodau hefyd yn teimlo y dylid ofyn am gyllid dan EMFF i fwrw ymlaen â chynllun o'r fath er mwyn pysgota'n fwy cynaliadwy.</p> <p>Cam 4: WFA i roi cais ynghyd am gyllid EMFF ar gyfer tyllau dianc / hefyd i weithio gyda'r Pwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr i lunio taflen wybodaeth sy'n cynnwys dolen i fideo YouTube i hysbysu'r diwydiant.</p>
3.	<p>Gweithrediadau Pysgodfeydd - Roedd yr aelodau wedi cael diweddariad ysgrifenedig ar weithrediadau pysgodfeydd rhwng mis Mai a diwedd mis Medi, a oedd yn cynnwys agor Pysgodfa Gocos y Tair Afon. Amlinellodd JB feysydd gwaith allweddol eraill a oedd yn cynnwys draenogiaid y môr a chregyn moch.</p>

WMFAG (M1) – Eitem 2

	<p>Hysbyswyd yr aelodau hefyd am erlyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn cynnwys troseddau'n ymwneud â chregyn bylchog, cocos a thrwyddedu morol.</p> <p>Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y defnydd o Longau Patrolio Pysgodfeydd; esboniodd JB fod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd wedi achosi problemau gan fod staff wedi gorfod gweithio mewn meysydd eraill. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddatrys cyn hir.</p> <p>Nododd JB y cafwyd 26 o erlyniadau llwyddiannus ers 1 Ionawr 2018 a oedd yn cynnwys troseddau'n ymwneud â chregyn bylchog a thrwyddedau morol. Rydym yn gobeithio y ceir cyfanswm o 30 o erlyniadau erbyn diwedd 2018. Yn ystod y trafodaethau, nododd yr aelodau symiau rhai o'r dirwyon a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd LIC wedi cael yr arian hwn; cadarnhawyd mai dim ond y costau a oedd wedi dod i law.</p>
4.	<p>Brexit – Gan gynnwys Eitem 8 – Parodrwydd y Sector/Strategaeth Bwyd Môr Cymru</p> <p>Er nad oedd aelod o dîm Brexit yn bresennol, darparodd BJ ddiweddariad ar Barodrwydd y Sector a Strategaeth Bwyd Môr Cymru.</p> <p>Parodrwydd y Sector - Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan Miller Research bellach wedi'i wneud ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hysbysu am hyn. Roeddem yn aros am fersiwn derfynol o'r adroddiad a byddai'n cael ei ddsbarthu i'r grŵp pan fyddai'n barod. Byddai hyn yn cynnwys cynllun gweithredu a fyddai'n esbonio'r hyn y gellid ei ystyried os na fydd cytundeb Brexit, a pha mor barod yw'r sector ar gyfer hyn.</p> <p>Mae'r cynllun cyfathrebu hefyd yn cael ei ystyried i sicrhau bod y diwydiant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Strategaeth Bwyd Môr Cymru - esboniodd BJ ei bod yn gobeithio darparu diweddariad i'r aelodau yn dilyn y daith fasnach ddiweddar i Hong Kong. Fodd bynnag, mae BJ yn dal i aros am adborth gan y rheini a aeth ar y daith.</p> <p>Cynllun costau wedi'i symleiddio ar gyfer EMFF - Cafodd yr aelodau ddogfen ar gynnig costau wedi'u symleiddio ar gyfer EMFF yng Nghymru - esboniodd BJ fod y rhestr ddrafft hon o eitemau ar gael ar-lein i bysgotwyr bach drwy gyflwyno cais ar-lein yn unig. Byddai terfyn uwch yn gymwys er nad yw ar gael ar hyn o bryd. Gofynnir am adborth gan yr aelodau cyn gynted â phosibl.</p> <p>Cam 5: Yr aelodau i ddarparu adborth i BJ ar gynnwys y cynllun costau wedi'i symleiddio.</p>
5.	<p>Crynodeb o Ffrydiau Gwaith Allweddol - Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y newidiadau a wnaed i flaenoriaeth rhai ffrydiau gwaith gyda'r 3 sy'n cael y flaenoriaeth fwyaf yn newid i gynnwys Tystysgrifau Allforio, adroddiadau ar dalfeydd cychod dan 10 metr ac systemau monitro cychod y glannau. Esboniodd JB fod hyn bellach yn adlewyrchu'r gofyniad brys i gwblhau'r gwaith ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl Brexit.</p> <p><i>Blaenoriaeth 1</i> - Darparodd TC ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar bob un o'r ffrydiau gwaith ac yn enwedig ar y Tystysgrifau Allforio. Esboniwyd bod hyn</p>

WMFAG (M1) – Eitem 2

	<p>yn ddarn mawr o waith sy'n cynnwys pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu system ddigidol i alluogi allforwyr i greu tystysgrifau allforio.</p> <p><i>Blaenoriaeth 2/3 - Adroddiadau ar Dalfeydd cychod dan 10 metr/Monitro cychod</i> - Esboniodd TC fod cyllid EMFF ar gael i helpu i ddatblygu system adrodd ar dalfeydd cychod dan 10 metr ac i gymhwyso rheoliadau gorfodol o ran y system fonitro ar gyfer cychod pysgodfeydd y glannau. Esboniwyd wrth yr aelodau fod ymarfer caffael yn cael ei gynnal i ddatblygu manyleb dechnegol i'r ddwy system a fydd yn derfynol yn fuan. Mae cyflenwyr posibl wedi'u nodi a byddant yn rhan o'r broses dendro ddechrau mis Hydref.</p> <p>Rhoddydwyd wybod i'r aelodau y bydd cyfres o weithdai yn cael eu cynnal i hysbysu'r diwydiant am y System Cipio Data. Gofynnwyd i'r grŵp roi gwybod i aelodau eu cymdeithasau am y gweithdai hyn. Bydd y system adrodd ar gyfer cychod dan 10 metr yn darparu data a fydd yn cael eu 'bwydo' i'r tystysgrifau dalfeydd uchod.</p> <p>Cam 6: Yr aelodau i roi gwybod i aelodau eu cymdeithasau a physgodfeydd ehangach am yr amryfal weithdai a fydd yn cael eu cynnal ym mis Hydref i hysbysu'r diwydiant am ofynion y system cipio data.</p> <p><i>Blaenoriaeth 4 - Cregyn Moch</i> Eglurwyd wrth yr aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r adrannau cyfreithiol i gyflwyno deddfwriaeth newydd. Bydd swyddogion cyn bo hir yn egluro'r cynigion i Ysgrifennydd y Cabinet a rhagwelir y gellid cyflwyno deddfwriaeth newydd erbyn diwedd 2018.</p> <p><i>Blaenoriaeth 5 – Cregyn Bylchog - RED</i> sy'n dal i fod yn gyfrifol am y ffrwd gwaith hwn. Mae swyddogion yn aros am gyngor ar y dull mwyaf addas o gyflwyno mesurau caniatáu hyblyg.</p> <p><i>Blaenoriaeth 6 - Cocos</i> - Mae swyddogion yn aros am gyngor ar y dull mwyaf addas o gyflwyno mesurau caniatáu hyblyg. Bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal a bydd yn cynnwys mesurau allweddol i'w hystyried.</p> <p>Yn ystod y trafodaethau, mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno deddfwriaeth newydd. Teimlai'r Aelodau mai gwaith Brexit sy'n cael blaenoriaeth yn hytrach na gwaith arferol, a bod angen adnoddau ychwanegol i ymdrin â'r gwaith hwn.</p> <p>FAPau – Bydd CC a Michelle Billing yn parhau i weithio ar y ddogfen ymgynghori.</p> <p>Asesu Pysgodfeydd Cymru - mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y camau nesaf o'r asesiadau porffor.</p> <p>Gwrachod rhesog - Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wrachod rhesog yn cael eu cymryd.</p> <p>Pysgodfeydd Cyllyll Môr - Mae arolwg islanwol cychwynnol wedi'i gynnal a oedd yn dangos bod 3 rhywogaeth yn bresennol. Mae swyddogion yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer cynnal arolwg islanwol a fydd yn fwy heriol.</p> <p>Aber Afon Dyfrdwy/Genweirio – mae'r gwaith monitro yn parhau.</p>
6.	Strategaeth Tystiolaeth Morol a Physgodfeydd - Nodwyd y byddai'r eitem hon yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.

WMFAG (M1) – Eitem 2

7.	<p>Diweddariad ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin - Cafodd yr aelodau'r papur a ddarparwyd. Rhoddwyd diweddariadau pellach gan MS a MJ. Esboniodd MS y byddai'r ymrwymiad i bysgota pob stoc yn unol â chyfraddau marwoldeb i sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf erbyn 2020 yn lleihau'r cwotâu a bennir yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Fel rhan o gyfrifyddu marwoldeb pysgota, byddai'r Rhwymedigaeth Lanio yn dod i effaith yn gyfan gwbl o ddechrau 2019. Yn ffodus, fel rhan o broses Grŵp Rhanbarthol Dyfroedd y Gogledd-orllewin, roedd esemptiadau lefelau goroesi uchel wedi'u sicrhau ar gyfer y rhan fwyaf o stociau o ddiddordeb yn nyfroedd Cymru ac felly bach iawn fydd yr effaith ar bysgotwyr Cymru. Darparodd MJ ragor o wybodaeth ar gyfer 2018 gan esbonio y cafodd Cymru newyddion gwell na'r disgwyl yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr. Roedd y cwotâu a ddyrannwyd ymhell y tu mewn i'r paramedrau ac o ganlyniad, ni chaewyd unrhyw bysgodfeydd yn 2018. Roedd angen defnyddio mwy o'r cwota gyfer morgathod, gan fod llai na 60% wedi'i ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn.</p> <p>Gan edrych ar y cwotâu ar gyfer 2019, mae cyngor gwyddonol wedi'i lunio a bydd y Comisiwn bellach yn cyhoeddi canllawiau ar y dull o gyflwyno'r cyngor hwnnw ac ym mis Tachwedd, bydd yn cyfleu ei ymgais gyntaf o ran pennu cwotâu. Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod nesaf y rhanddeiliaid, a bydd yr aelodau yn cael ei gwahodd i hwn ym mis Tachwedd - Defra sy'n rhoi'r gwahoddiadau.</p> <p>Y bwriad yw anfon e-bost at aelodau sydd wedi dangos diddordeb mewn cael eu gwahodd; os ydych am fynd, bydd y gwahoddiad yn dod o George Eustice.</p> <p>Dadansoddiad ar gyngor gwyddonol ar gyfer pysgodfeydd Cymru; niferoedd cynyddol o ledod chwithig, lledod cochion a phenfreision, a hadog. Cario ymlaen lefelau cwotâu 2018 ar gyfer sawl rhywogaeth arall.</p> <p>MJ wedi estyn gwahoddiad Defra i rhanddeiliaid WMFAG sydd wedi dangos diddordeb yn uniongyrchol.</p> <p>Cam 7: MJ i gysylltu ag aelodau pysgodfeydd WMFAG i ystyried eu diddordeb mewn mynychu'r cyfarfod rhanddeiliaid gyda Defra ym mis Tachwedd.</p> <p>Draenogiaid y Môr - Esboniodd MJ fod y cyfyngiadau wedi'u newid i ganiatáu 1 draenogyn y môr i bob person bob dydd pa un ai drwy bysgota o'r lan neu ar gwch; mae hyn yn gymwys rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr.</p> <p>Gwelir rhai arwyddion o adferiad o ran y sociau draenogiaid y môr, mae'n bosibl na fydd y Cyngor yn mis Rhagfyr yn gweld unrhyw newidiadau mawr i'r cyfyngiadau. Esboniodd MJ y gallai fod rhai newidiadau i'r cyfyngiadau ar bysgota gyda rhywidi ac o bosibl o'r lan.</p> <p>O ran y cyfyngiad hamdden ar gyfer y DU - mae pysgota drwy ddefnyddio cychod siarter wedi dioddef yn sgil cyfyngiadau - mae'n bosibl y bydd 3 yn gweithio ond byddai 5 yn sicr yn gweithio.</p> <p>Y diwydiant yn fodlon â'r dyraniad, cychod siarter yn glanio pob math o bysgod y maent yn eu dal ac yna'n eu gwerthu. Sicraodd JE fod WFA yn cyd-fynd ag ymateb i'r Comisiwn a wnaed gan y Grŵp Technegol y Dyfroedd Gogledd-orllewinol ar ddraenogiaid y môr.</p>
----	--

Comment [FC(1): – I've translated it as 'Major uptake was needed for skates and rays as uptake was below 60% for the year'.

WMFAG (M1) – Eitem 2

	<p>JOC - dylid cael terfynau bagiau ar genweirio hamdden - 1 pysgodyn y dydd ar gyfer genweirwyr ar y lan. Dim cynnydd o ran gweithgarwch masnachol.</p> <p>Cimychiaid a Chimychiaid Cochion Wyog - Cafodd yr aelodau bapur a oedd yn amlinellu'r ddeddfwriaeth bresennol i warchod cimychiaid a chimychiaid cochion wyog mewn rhannau penodol o'r DU. Ar hyn o bryd, mae'r unig ddulliau o warchod cimychiaid a chimychiaid cochion wyog yn wirfoddol.</p> <p>Cafwyd ymateb cymysg yng Nghymru yn y gorffennol i gynigion Comisiwn y DU i gyflwyno rheoliadau ar gadwraeth technegol a fyddai'n gwahardd glanio rhywogaethau o'r fath. Nid yw'n glir pryd fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ac mae'n bosibl y bydd y mater hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr ac yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Rheoliad Cwota Cyffredinol.</p> <p>Roedd yr aelodau yn y cyfarfod o blaid y ddeddfwriaeth i'w gwarchod ac roeddent yn teimlo y dylai hyn fod wedi'i gyflwyno yn ystod yr adolygiad cychwynnol ar gramenogion.</p> <p>Cyfarfod rhanddeiliaid y DU - bydd yr aelodau yn cael eu gwahodd (gweler Cam 7 uchod) i gyfarfod rhanddeiliaid y DU yn Llundain ar 15 Tachwedd. Ar ben hynny, bydd cyfle i gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet cyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr i drafod materion sy'n ymwneud â Chymru. Mae hyn bellach wedi'i drefnu ar gyfer 21 Tachwedd ac mae gwahoddiadau wedi'u hanfon at aelodau'r WMFAG.</p> <p>Cam 8: Bydd MS yn ysgrifennu at aelodau'r WMFAG i'w gwahodd i gyfarfod rhanddeiliaid gydag Ysgrifennydd y Cabinet cyn trafodaethau'r Cyngor ym mis Rhagfyr.</p> <p>Cynigiodd Holly yn garedig fod Seafish yn diweddarau'r adroddiadau economaidd-gymdeithasol ar ddraenogiaid y môr a morgathod; bydd yn gallu darparu'r adroddiadau cyn y cyfarfod.</p> <p>Cam 9: HW i ddarparu adroddiadau economaidd-gymdeithasol ar forgathod i MS/MJ.</p>
8.	Parodrwydd y Sector - Strategaeth Bwyd Môr Cymru - trafodwyd dan eitem 4.
9.	Eitemau er gwybodaeth <i>(i) Gwefan</i> <ul style="list-style-type: none">• Gweithgarwch / ymweliadau - Roedd yr aelodau o'r farn bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol ond bod angen eglurhad pellach. Cytunwyd hefyd y dylid darparu hyn yn flynyddol.• <i>Opsiynau o ran strwythur - ar gyfer gwefannau arfaethedig</i> - Opsiwn 2 oedd yr opsiwn a ffefrir.• <i>Cofrestr rhanddeiliaid / Datganiad Preifatrwydd GDPR</i> - Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch yr anawsterau a geir wrth gofrestru. <p>Cam 10: JB i ganfod pa wybodaeth y dylid ei rhoi i aelodau ar ôl cofrestru ar y Gofrestr Rhanddeiliaid.</p> <i>(ii) Maelgwn</i> <i>(iii) Llamhidyddion</i> - Adroddiad Blynyddol (dolenni gwe wedi'u darparu)

WMFAG (M1) – Eitem 2

	<p>(iv) <i>Dyddiadau cyfarfodydd 2019</i> - Dyddiadau cyfarfodydd wedi'u darparu ond dywedwyd eu bod yn debygol o gael eu newid.</p> <p>(v) <i>Crynnodiadau Cadmiwm ac Arsenig yng Nghregyn Bylchog Bae Ceredigion</i> - Esboniodd BJ y prawf a gynhaliwyd gan yr MoD wedi dangos lefelau uchel o gadmiwm acarsenic mewn cregyn bylchog. Mae LIC wedi cynnal profion pellach gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.</p>
10.	Cylch gorchwyl a dirprwyon/aelodau pellach - Nodwyd bod yr ysgrifenyddiaeth yn dal i aros am fanylion dirprwyon ychwanegol a chadarnhad gan rai aelodau/cymdeithasau eu bod yn derbyn y cylch gorchwyl.
11.	Unrhyw fater arall - Rhoddodd HW amlinelliad bras i'r Aelodau o'r gwaith a wneir gan Caroline Dawson ar brosiect bwyd môr Cymru. Bydd Hollie yn gwahodd Caroline i gyfarfod nesaf WMFAG.